**GWEINIDOGION Y DU SY’N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**216 – Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygiadau Amrywiol sy'n Ymwneud â Chyfansoddiad, Gwybodaeth a Labelu Bwyd a Gwin) 2021**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 11 Ionawr 2021*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 26 Ionawr 2021 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 26 Ionawr 2021 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 27 Ionawr 2021 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Yn ôl datganiad Gweinidogion Cymru “Nid yw’r polisi’n cael ei newid ond ceir darnau cyfnewid yn sgil y ffaith na fydd y DU bellach yn aelod o’r UE a fydd yn cael ‘effaith byd go iawn’ ar yr wybodaeth a’r ffordd y caiff ei chyflwyno i ddefnyddwyr”.

Er enghraifft:

- Bydd angen i fwyd a roddir ar y farchnad ym Mhrydain Fawr fod â chyfeiriad yn y DU ar gyfer y busnes bwyd sy'n gyfrifol am y

wybodaeth fwyd ar y label. Ar hyn o bryd, gall y cyfeiriad hwn fod mewn unrhyw un o 27 Aelod-wladwriaeth yr UE neu'r DU. Mae angen y newid hwn er mwyn sicrhau bod ffordd uniongyrchol a syml i ddefnyddwyr a swyddogion gorfodi (Safonau Masnach) gysylltu â'r rhai sy'n gyfrifol am y wybodaeth ar labeli bwyd.

- Ar gyfer briwgig (ac eithrio cig eidion), bydd dangosyddion tarddiad fel 'UE' a 'Tu allan i'r UE' yn newid i 'DU' a 'Tu allan i'r DU'. Ond nid yw hyn yn golygu na ellir defnyddio labeli i ddangos bod y cynnyrch yn dod o wlad benodol yn lle.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu na fydd methiant i gydymffurfio â gofynion labelu Dynodiad Daearyddol yn destun camau gorfodi yn ystod cyfnod pontio o dair blynedd pe bai'r cynnyrch bwyd dan sylw yn cael ei roi ar y farchnad yn ystod y cyfnod hwnnw ac y byddai wedi cydymffurfio â'r rheolau Dynodiad Daearyddol yn syth cyn 31 Rhagfyr 2020. (Fodd bynnag, ar gyfer cynhyrchion gwin, nid yw'r cyfnod pontio tair blynedd yn gymwys, a gallant barhau i gael eu marchnata nes bod y stoc wedi dod i ben. Mae'r dull hwn yn cydnabod y cyfnod silff hirach sy'n nodweddiadol o gynhyrchion gwin.)

Mae'r cyfnod pontio tair blynedd hwn yn cyd-fynd â'r cyfnod o dair blynedd nes bod defnyddio logo Dynodiad Daearyddol newydd y DU yn dod yn orfodol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 29 Ionawr 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.